AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# UWCH

## GWEITHGAREDDAU 1-15



# CYNNWYS

1 Cyflwyno'r Archif Glyweledol
2 Y Wenhwyseg
3 Eglwys Sant Teilo
4 Y Pentre Celtaidd
5 Dysgu Hanes Merched
6 Cyflwyno'r Amgueddfa
7 Tŷ'r Dyfodol
8 Y Llwybr Diarhebion

# 1. CYFLWYNO ARCHIF GLYWELEDOL AMGUEDDFA WERIN CYMRU





**Helo, fy enw i yw Meinwen Ruddock a fi yw Archifydd Amgueddfa Werin Cymru. Rwy'n gofalu am dair archif, yr Archif Glyweledol. yr Archif Ffotograffiaeth, a'r Archif Lawysgrifau.**

Mae'r archif Glyweledol yn cynnwys dros ddeng mil o dapiau, dros ddau gant o ffilmiau, mil a hanner o ddisgiau masnachol a chasgliad o roliau ffonograff. Fe recordiwyd y rhan fwyaf o'r tapiau yn yr archif gan staff yr amgueddfa. Mae dros bedair mil o siaradwyr wedi eu recordio yn yr Archif yn siarad am bynciau fel: Amaethyddiaeth, Gwaith Tŷ, Bwydydd Traddodiadol, Meddyginiaeth Draddodiadol, Chwaraeon Plant a Llên Gwerin. Fe recordiwyd llawer o'r tapiau ar ddiwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau. Roedd gan yr Amgueddfa Land Rover a charafán a byddai staff yn teithio ar draws Cymru am wythnosau yn recordio siaradwyr ac yn dod â'r tapiau yn ôl i'r Archif.

Dyma lle cedwir dogfennaeth yr Archif Glyweledol.

Yn y ddrôr hon mae cerdyn i bob siaradwr. Edrychwch ar y penawdau ar y cerdyn ...

Yn y ddrôr hon mae cerdyn i bob recordiad. Edrychwch ar y penawdau ar y cerdyn ...

Mae llawer o'r wybodaeth ar y cardiau wedi ei rhoi ar y cyfrifiadur erbyn hyn mewn cronfa wybodaeth.

A dyma gofrestr yr Archif ...



# 1.CYFLWYNO ARCHIF GLYWELEDOL AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

## PWYNT IEITHYDDOL:

**Sylwch ar y brawddegau hyn a'r ffurfiau a amlygir:**
Dyma lle cedwir dogfennaeth yr Archif Glyweledol.
Fe recordiwyd llawer o'r tapiau ar ddiwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau.

**Rydych wedi gweld patrymau fel:**
Cafodd y tapiau eu recordio yn y stiwdio./**Recordiwyd** y tapiau yn y stiwdio.
Cafodd y dyn ei weld yn y dref. /**Gwelwyd** y dyn yn y dref.

Mae'r arian yn cael ei gadw yn y banc./**Cedwir** yr arian yn y banc.
Mae plant yn cael eu geni yn yr ysbyty./**Genir** plant yn yr ysbyty.

Roedd Cymraeg yn cael ei siarad yn yr ardal./**Siaredid** Cymraeg yn yr ardal
Roedd te'n cael ei yfed yno./**Yfid** te yno.

Wrth ysgrifennu Cymraeg ffurfiol, weithiau rydyn ni'n defnyddio'r ffurfiau cryno yn lle'r rhai cwmpasog. Ar brydiau rydych chi'n clywed y ffurfiau hyn ar lafar: **Claddwyd** ef ddoe.
**Ganed** hi yng Nghymru.

**Beth bynnag, cofiwch y terfyniadau:**
Amser Gorffennol: -wyd
Amser Presennol: -ir
Amser Amherffaith: -id

**Hefyd, sylwch fod a > e yn yr Amser Presennol ac Amherffaith pan fydd yn y rhan o'r gair a bwysleisir:**
talu > telir/telid; canu > cenir/cenid; gallu > gellir/gellid;
cynnal > cynhelir/cynhelid (ond cynhaliwyd).

# 1. CYFLWYNO ARCHIF GLYWELEDOL AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)



## Geirfa:

**Geirfa Gyffredinol**

| | |
|---|---|
| archifydd g. | = an archivist |
| archif b. | = an archive |
| clyweledol | = audio-visual |
| llawysgrif (-au) b. | = a manuscript |
| cynnwys | = to contain |
| masnachol | = commercial |
| amaethyddiaeth b. | = agriculture |
| traddodiadol | = traditional |
| meddyginiaeth b. | = medicine |
| llên gwerin b. | = folklore |
| pennawd (penawdau) g. | = headings |
| cronfa wybodaeth b. | = database |

**Geirfa ar gyfer penawdau y Cardiau Siaradwyr**

| | |
|---|---|
| cyfenw (-au) g. | = a surname |
| ganwyd | = was born |
| priod | = a spouse |
| addysg b. | = education |
| perthynas (perthnasau) g. | = a relative |
| enwad (-au) g. | = a denomination |

**Geirfa ar gyfer penawdau y Cardiau Recordiad**

| | |
|---|---|
| holiadur (-on) g. | = a questionnaire |
| cynnwys g. | = content(s) |
| tystiolaeth b. | = evidence |
| holwr (holwyr) | = interviewer |
| man (-nau) b. | = a place |
| ychwanegol | = additional |
| gwerth (-oedd) g. | = value |
| personoliaeth (-au) b. | = personality |
| awyrgylch g. | = atmosphere |
| sain g. | = sound |
| safon (-au) b. | = quality, standard |

# 1. CYFLWYNO ARCHIF GLYWELEDOL AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

## Ymarferion:

### 1. Llanwch y bylchau:

Mae'r archif yn...........................................dros ddeng mil o dapiau.
Mae amaethyddiaeth, gwaith tŷ a llên gwerin yn dri o'r...............................mae pobl yn siarad amdanynt.
Mae bara lawr a bara brith yn ddau o fwydydd...........................................Cymru.
..............................David Lloyd George ym Manceinion yn 1863.
Mae'r Annibynwyr, Presbyteriaid a'r Bedyddwyr yn.............................................

### 2. Atebwch y cwestiynau:

i) Beth yw swydd Meinwen Ruddock?
ii) Am ba archifau mae Meinwen yn gyfrifol?
iii) Beth sy yn yr Archif Glyweledol?
iv) Faint o bobl sy wedi cael eu recordio?
v) Am ba fath o fwydydd a chwaraeon maen nhw'n sôn?
vi) Pryd recordiwyd y rhan fwya o'r tapiau?
vii) Sut roedd y staff yn teithio?
viii) Beth sy wedi digwydd i'r wybodaeth oedd ar gardiau i ddechrau?

### 3. Pa air yn Rhestr A sy'n cyfateb i'r un yn Rhestr B?

| Rhestr A | Rhestr B |
|---|---|
| ganwyd | dysgu |
| amaethyddiaeth | lle |
| sain | gŵr/gwraig |
| man | testun |
| clyweledol | cafodd ei eni |
| addysg | ffermio |
| pwnc | sŵn |
| priod | gweladwy a chlywadwy |

### 4. Mae'r ffeithiau yn y brawddegau hyn yn anghywir. Cywirwch nhw.

i) Archifydd Amgueddfa Werin Cymru yw Mary Williams.
ii) Mae hi'n gyfrifol am bedair archif.
iii) Mae llai na mil o dapiau yn yr archif Glyweledol.
iv) Recordiwyd llawer o'r tapiau'n ddiweddar.
v) Roedd y staff yn teithio ar draws Cymru mewn bws wrth recordio.
vi) Dim ond ar y cyfrifiadur mae gwybodaeth am y siaradwyr ar gael.

# 2. CYFLWYNO'R WENHWYSEG




**Helo, fy enw i yw Beth Thomas a fi yw Ceidwad yr adran Bywyd Gwerin yn Amgueddfa Werin Cymru, yr adran sy'n gofalu am holl gasgliadau'r Amgueddfa. Pan ddechreuais i weithio i'r Amgueddfa yn 1977, fy swydd gyntaf oedd recordio ac astudio tafodieithoedd y Gymraeg - hynny yw, tafodieithegydd oeddwn.**

Mae'r Gymraeg yn amrywio'n fawr iawn o ardal i ardal - o ran geirfa, acen a gramadeg. Mae hyn yn gallu bod yn her i unrhywun sy'n dysgu'r iaith. Mae'r iaith hefyd yn newid yn gymdeithasol - er enghraifft, yn ôl oed, cefndir a hyd yn oed rhyw'r siaradwyr!

Yn yr archif yn Sain Ffagan mae gennym filoedd o recordiadau o bobl yn siarad yn eu tafodiaith. Mae gennym enghreifftiau o ardaloedd lle nad oes dim Cymry Cymraeg brodorol ar ôl erbyn hyn. Byddaf yn chwarae enghreifftiau ichi o dafodiaith Gwent a Morgannwg, sef y Wenhwyseg, ac yn disgrifio ei phrif nodweddion.

## Geirfa:

ceidwad (ceidwaid) g. = a keeper
archif (-au) b. = an archive
casgliad (-au) g. = a collection
tafodiaith (tafodieithoedd) b. = a dialect
tafodieithegydd (tafodieithegwyr) g. = a dialectologist
amrywio = to vary
amrywiad (-au) g. = a variation
cymdeithasol = social
rhyw g. = sex, gender
recordiad(-au) g. = a recording
brodorol = native
Y Wenhwyseg = the Gwentian dialect

nodwedd(-ion) b. = a feature
sain (seiniau) g. = sound (s)
dosbarthiad (-au) g. = distribution
sillaf (-au) b. = syllable
tiriogaeth (-au) b. = territory
cenhedlaeth (cenedlaethau) = a generation
cytsain (cytseiniaid) b. = a consonant
llafariad (llafariaid) b. = a vowel
gwahaniaeth(-au) g. = difference(s)
terfyniad (-au) g. = an ending

# 2. CYFLWYNO'R WENHWYSEG (PARHAD)

## Pwynt Iaith:

**Fe welsoch y ffurfiau, 'Mae gennym filoedd o recordiadau..' a 'Mae gennym enghreifftiau...' Ffurf berson 1af. lluosog 'gan' yw 'gennym' (we have). Mae'n ffurf lenyddol, safonol a'r rhediad llawn yw:**
gennyf; gennyt; ganddo; ganddi; gennym; gennych; ganddynt.

**Y ffurfiau llafar cyfatebol yn y gogledd yw:**
gynno i; gynnot ti; gynno fo; gynni hi; gynnon ni; gynnoch chi; gynnyn nhw.

**Mae'n bosib eich bod wedi dysgu ffurfiau wedi eu seilio ar 'gyda', er taw 'da a glywir ar lafar yn y de:**
'da fi; 'da ti; 'da fe; 'da hi; 'da ni; 'da chi; 'da nhw.

**Sylwch ar y treiglad yn, 'Mae gennym filoedd o recordiadau.'**
**Y rheswm am y treiglad meddal yw bod 'gennym' yn torri ar rediad arferol y cymal. Mae hyn yn digwydd bob tro gyda'r ffurfiau hyn:**
Roedd ganddo gi.
Mae 'da fi ddigon o arian/Mae digon o arian 'da fi.

**1. Darllenwch y cyflwyniad (introduction) ac atebwch y cwestiynau:**
i) Beth yw gwaith yr Adran Bywyd Gwerin yn Amgueddfa Werin Cymru?
ii) Beth oedd Beth Thomas yn ei wneud yn 1977?
iii) Sut mae'r Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal?
iv) Sut mae'r iaith yn newid yn gymdeithasol yn ogystal?
v) Pa recordiadau prin a phwysig sydd gan yr Amgueddfa?
vi) Ble roedd y Wenhwyseg yn cael ei siarad?



# 2. CYFLWYNO'R WENHWYSEG (PARHAD)

2. Esboniwch ystyr y geiriau hyn yn y Gymraeg:

archif
acen
tafodiaith
tafodieithegydd
gramadeg
iaith lafar

3. Llenwch y bylchau yn y darn isod (below) trwy ddefnyddio'r geiriau yma:
brodorol; archif; gwŷr; amrywio; enghreifftiau; llawer; hacen; gwahaniaeth; dangos; ardal; oed; dafodieithegwyr.

Mae..................o dapiau 'da ni yn yr..................................Fe gawson nhw eu recordio gan.........................ac maen nhw'n.....................sut mae'r Gymraeg yn............................o ardal i..................................Yn aml, ryn ni'n gwybod o ble mae rhywun yn dod wrth eu.............................ond gall iaith hefyd amrywio o fewn yr un ardal yn ôl..........................a chefndir y siaradwr. Weithiau, yn rhyfedd iawn, mae....................rhwng Cymraeg.........................a gwragedd. Diflannodd yr iaith mewn rhai ardaloedd ac erbyn heddiw does dim siaradwyr...................... ar ôl. Ond trwy lwc, mae.................................o iaith yr ardaloedd yna wedi eu casglu gan staff yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

4. Pa eiriau yn Rhestr A sy'n perthyn i'r rhai yn Rhestr B?

| A | B |
|---|---|
| swydd | cadw |
| ysgrifenedig | esiamplau |
| gorffennol | niwed |
| llafar | priodoleddau |
| ardal | iaith ardal arbennig |
| gramadeg | lle |
| tafodiaith | ar bapur |
| ceidwad | gwaith |
| amrywio | llynedd |
| enghreifftiau | siarad |
| nodweddion | rheolau iaith |




# 3. CYFLWYNO EGLWYS SANT TEILO, AMGUEDDFA WERIN CYMRU



**Helo, Leah Jones ydw i, ac rwy'n gyfrifol am ddehongli adeilad mwyaf diweddar yr Amgueddfa, sef Eglwys Sant Teilo, o Landeilo Talybont.**

Dyma brosiect mwyaf uchelgeisiol yr Amgueddfa hyd yma, a dyma'r tro cyntaf i Eglwys o'r fath faint a phwysigrwydd gael ei symud i unrhyw amgueddfa awyr agored ym Mhrydain.





Un o brif atyniadau'r Eglwys yw darganfyddiad y murluniau Canol Oesol. Er nad oes dilyniant penodol i'r lluniau, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu seilio ar fywyd Crist. Maen nhw'n ein galluogi ni i ail-greu eglwys o gyfnod cyn y Diwygiad Protestanaidd, sef 1520 (cyfnod pan fasai'r murluniau wedi bod yn llachar), a dehongli'r cyfnod arbennig yma o hanes. Fy swydd i, felly, yw dehongli'r adeilad mewn gwahanol ffyrdd, trwy ymchwilio i egwyddorion crefyddol a chymdeithasol y cyfnod, tra'n esbonio'r syniadaeth bensaernïol y tu ôl i'r Eglwys fel adeilad. Gan fy mod i'n gweithio i'r Adran Addysg yma yn yr Amgueddfa, rydym yn awyddus i ddatblygu sesiynau addysg gydag ysgolion, a gwneud crefydd a hanes yn ddiddorol yn ogystal ag yn addysgiadol iddyn nhw.

Mae'n brosiect diddorol, ac mae'n gyfle i'r cyhoedd ddilyn y broses o adeiladu trwy gael golwg arno o'r platfform sydd ar y safle. Dyma'r tro cyntaf i ni ganiatáu i'r cyhoedd weld y broses adeiladu yn digwydd, ac mae hefyd yn gyfle i weld crefftwyr sy'n defnyddio sgiliau Canol Oesol wrth eu gwaith.



# 3. CYFLWYNO EGLWYS SANT TEILO, AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

## Geirfa:

| | |
|---|---|
| trawst (iau) g. | = trusses |
| saer coed g. | = a carpenter |
| coed ywydd ll. | = yew trees |
| teils to carreg ll. | = stone roof tiles |
| coed derw ll. | = oak trees |
| tŵr cloch g. | = a bell tower |
| Yr Oesoedd Canol ll. | = Middle Ages/Medieval |
| Diwygiad Protestanaidd g. | = Protestant reformation |
| cynulleidfa (oedd) b. | = a congregation |
| offeiriad (offeiriaid) g. | = a priest |
| Harri'r VIIIfed | = Henry VIIIth |
| morter calch g. | = lime mortar |
| gwyngalch g. | = lime wash |
| cerfio | = to carve |
| bwyell gam b. | = an adze |
| datgymalu | = to dismantle |
| murluniau ll. | = wall paintings |
| Lladin b. | = latin |
| bwa (Bwâu) g. | = arches |
| cloddiad archaeolegol g. | = archaeological dig |
| croes bregethu b. | = a preaching cross |
| porth g. | = a porch |
| prif gorff g. | = a nave |
| croglofft b. | = roof loft |
| croglen b. | = roof screen |
| y gangell | = the chancel |
| ffont garreg b. | = a stone font |
| sylfaen (sylfeini) b. | = a foundation |
| saer maen g. | = a stone mason |
| dehongli | = to interpret |
| arddangos | = to exhibit |



# 3. CYFLWYNO EGLWYS SANT TEILO, AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

## Pwynt Iaith:

**Rydych wedi gweld y gair 'math' yn y cyflwyniad. Fel arfer, enw gwrywaidd yw 'math':**

Mae dau fath o blant yn y dosbarth.
Roedd e'n tyfu tri math o datws

**Gall hefyd olygu 'such' pan ddaw o flaen enw - y fath dai (such houses):**

Ddywedodd e'r fath beth. (He didn't say such a thing)
Welais i erioed y fath fwyd. (I never saw such food)

Sylwch fod yr enw sy'n dilyn yn treiglo'n feddal.

**1. Darllenwch y darn ac atebwch y cwestiynau yma:**

i) Beth yw swydd Leah Jones?
ii) Beth sy'n arbennig am y prosiect hwn?
iii) Beth yw nodwedd fwyaf diddorol Eglwys Sant Teilo?
iv) I ba gyfnod mae'r eglwys yn perthyn?
v) Sut roedd y murluniau'n edrych tua 1520?
vi) Beth mae'r Adran Addysg yn awyddus i'w wneud?
vii) Beth yw pwrpas y platfform?
viii) Ydy'r gweithwyr yn defnyddio dulliau modern o adeiladu?

**2. Mae Leah Jones yn defnyddio 4 berf ond mae'r llythrennau wedi eu cymysgu. Beth ydyn nhw?**

icfore; hilnoged; gurpeeth; goddasran



## 3. CYFLWYNO EGLWYS SANT TEILO, AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

# Ymarferion:

**3. Pa air sy ddim yn perthyn i'r grwpiau yma a pham?**

i) tŵr cloch, bwyell gam, bwâu, crogloft.
ii) trawstiau, coed ywydd, morter calch, coed derw.
iii) arddangos, cerfio, dehongli, Lladin
iv) porth, saer coed, offeiriad, saer maen
v) prif gorff, diwygiad protestanaidd, y gangell, ffont garreg.
vi) ffenestri, porth, sylfeini, offeiriad.

**4. Fe welwch chi rai o'r pethau yma mewn eglwys, eraill mewn capel ac eraill yn y ddau:**

gweinidog; emynau; cangell; offeiriad; pulpud; sedd fawr; ffont; diaconiaid; ciwrad; Beibl; murluniau.

**Rhestrwch y geiriau dan y penawdau (headings) hyn a thrafodwch sut mae capel anghydffurfiol (nonconformist chapel) yn wahanol i'r eglwys:**

| EGLWYS | CAPEL | Y DDAU |
|---|---|---|

**5. Trafodwch:**

Beth yw eich profiad o fynd i eglwys/capel?
Pryd buoch chi mewn capel/eglwys ddiwetha?

# 4. CYFLWYNO Y PENTREF CELTAIDD, AMGUEDDFA WERIN CYMRU






**Helo, Owain Rhys ydw i, ac rwy'n gyfrifol am ddehongli'r Pentref Celtaidd.**

Mae'r tai crwn yn y pentref yn ceisio ail-greu anheddiad o'r Oes Haearn. Nid tai gwreiddiol, fel y tai eraill yn yr Amgueddfa, yw'r tai hyn. Does dim enghreifftiau o dai cyfan wedi goroesi. Gyda chymorth astudiaethau archaeolegol rydym wedi ail-greu tri thŷ ar sail olion rhai go iawn. Daw un tŷ o Swydd Gaerwrangon. Muriau wedi eu gwneud o gerrig sydd gan y tŷ hwn. Muriau pleth sydd gan y ddau dŷ arall. Seiliwyd y mwyaf o'r rhain ar olion a gloddiwyd ym Moel y Gerddi, Gwynedd a seiliwyd y llall ar dŷ o fryngaer, Moel y Gaer, Sir Fflint.

Fy swydd i yw dehongli'r pentref. Rwy'n gwneud hyn mewn sawl ffordd. Weithiau byddaf yn archwilio ffordd o fyw y Celtiaid, dro arall byddaf yn esbonio mai arbrawf archaeolegol a phensaernïol sydd i'w weld yma. Rwy'n gwneud llawer o waith gyda phlant ysgol. Maen nhw'n cael cyfle i ganolbwyntio ar wahanol themâu, ac i greu wal o blethwaith a chlai mewn gweithdai arbennig. Er mwyn helpu plant o bob oed i ddehongli'r pentref yn well mae'r Amgueddfa wedi creu teulu cartŵn dychmygol. Mae'r teulu'n byw yn y Pentref Celtaidd ac ar adegau arbennig maen nhw'n ymweld â'r gaer yng Nghastell Henllys.



Os edrychwch chi ar ein gwefan gallwch ddilyn hynt a helynt y teulu hwn, **www.aocc.ac.uk**




Mae pawb yn mwynhau ymweld â'r pentref. Y tu mewn i'r tai ceir gwyddiau i greu defnydd a breuanau i falu'r ŷd. Mae'r brigyrnau yn pwysleisio pa mor bwysig oedd haearn i'r bobl hyn. Rydym wedi darganfod nifer o wrthrychau haearn o'r cyfnod a gan mai prin iawn yw unrhyw ffynonellau ysgrifenedig, mae'r gwrthrychau hyn yn rhoi awgrym inni sut fyd oedd hi yng Nghymru yn ystod yr Oes Haearn.

# 4. CYFLWYNO Y PENTREF CELTAIDD, AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

## Geirfa:

anheddiad g. = a settlement
arbrawf g. = an experiment
archwilio = to explore
archaeolegol = archaeological
astudiaethau archaeolegol = archaeological studies
breuanau ll. = querns
brigyrnau ll. = firedogs
caer b. = a fort
defnydd (iau) g. = material
ffynonellau ysgrifenedig = written sources
goroesi = to survive
gwefan (gwefannau) b. = a website
gweithdy (gweithdai) g. = workshops
gwrthrych (au) g. = an object
gwŷdd (iau) g. = looms
ôl (olion) g. = remains
pensaernïol = architectural
plethwaith a chlai = wattle and daub
Swydd Gaerwrangon = Worcestershire
tai Crwn = roundhouses
ŷd g. = corn
Yr Oes Haearn = the Iron Age



## 4. CYFLWYNO Y PENTREF CELTAIDD, AMGUEDDFA WERIN CYMRU (PARHAD)

# Ymarferion:

**1. Pa air yn B sy'n cyfateb i A?**

| A | B |
|---|---|
| goroesi | syniad |
| anheddiad | ffug |
| archwilio | pethau |
| creu | astudio |
| dychmygol | cartrefi |
| hynt a helynt | parhau |
| breuanau | llunio |
| awgrym | hanes |
| gwrthrychau | melin law |

**2. Ysgrifennwch frawddegau i ddangos y gwahaniaeth rhwng y parau a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| arall - eraill | hyn - hwn |
| creu - llunio | mur - clawdd |
| cloddio - palu | swydd - gwaith |
| arbrawf - prawf | dychmygol - ffug |

**3. Mae UN gwall ym mhob un o'r brawddegau hyn. Dywedwch pam maen nhw'n anghywir.**

i) Mae'r tai grwn o'r Oes Haearn.
ii) Muriau sydd wedi ei wneud o gerrig sy gan y tŷ.
iii) Daw un tŷ o Sir Gaerwrangon.
iv) Rwy'n gwneud hyn mewn sawl ffyrdd.
v) Mae e'n gweithio gyda plant ysgol.
vi) Weithiau, byddaf yn archwilio, tro arall yn esbonio.
vii) Mae pobl yn mwynhau ymweld y pentref.
viii) Pa mor pwysig oedd haearn i'r bobl hyn?

**4. Trafodwch sut mae'r tai hyn yn wahanaol i'n tai ni.**

# 5. HANES MERCHED

**Helo, fy enw i yw Nia Williams ac rwy'n aelod o'r Adran Addysg yn Amgueddfa Werin Cymru. Fy ngwaith i yw datblygu rhaglenni addysgol i gynulleidfaoedd o bob oed a chefndir. Rwy'n gweithio ar nifer o gyweithiau gwahanol a diddorol.**

Un cywaith fwynheais i'n fawr oedd creu pecyn adnoddau, 'Hanes Merched Cymru, 1900-18'. Nid yw hanes merched wedi cael llawer o sylw a bwriad y pecyn hwn oedd ceisio cyflwyno rhai o'r hanesion hyn trwy amrywiol gyfryngau. Defnyddiais ffotograffau, pytiau o hanesion llafar ac amrywiaeth o ffynonellau ysgrifenedig. Trwy astudio'r hanesion llafar a'r ffotograffau hyn cefais olwg bersonol ar faterion a digwyddiadau lleol a chenedlaethol. Synnais pa mor amrywiol oedd profiadau merched yn y cyfnod hwn. Penderfynais ganolbwyntio ar rhai themâu amlwg megis gwaith, hamdden, tlodi a phrotest.

Y ddelwedd gryfaf o ferched Cymru mae'n debyg yw'r 'Fam Gymreig'. Mae'r archifau yma yn llawn ffotograffau o ferched yn gweithio yn eu cartrefi. Ond hefyd mae lluniau o ferched yn gweithio mewn ffatrïoedd, ar ffermydd, mewn siopau, ysbytai ac ysgolion. Dim ond y merched cyfoethog allai gyflogi morwynion i wneud y gwaith tŷ. Roedd y mwyafrif o'r merched yn gofalu am eu cartrefi ac yn gwneud rhyw fath o waith arall. Yn aml roedd yr amodau'n wael yn eu cartrefi. Doedd dim digon o le, dim dŵr o'r tap ac roedd y trefniadau gwaredu gwastraff yn sâl. Fel y dywed Mary Kingstone a aned yn Nhreorci:

**Odd yr hygiene yn ddychrynllyd. Rhyfedd bo ni 'ma heddi. Odd y toilet lawr gwaelod yr ardd, dim bathrwm, ac odd twba 'da ni yn y gegin. 'Na le ôn ni'n câl bath, a'r plant i gyd miwn a mas. Odd e'n primitif iawn.**

Os hoffech wybod mwy am ferched y cyfnod dewch draw am sgwrs i'r Amgueddfa.






# 5. HANES MERCHED (PARHAD)

## Geirfa

adnoddau = resources
amod (-au) gb. = a condition
amrywiol = various
astudio = to study
cyfryngau = media
cynulleidfa (-oedd) b. = an audience
cywaith (cyweithiau) g. = a project
delwedd (-au) b. = an image
dethol = to select
ffynhonnell (ffynonellau) ysgrifenedig b. = a written source
hamdden g. = leisure
hanesion = histories
llafar = oral
morwyn (-ion) b. = a maid
pwt (pytiau) g. = a small piece
thema (themâu) b. = a theme
tlodi g. = poverty
trefniadau gwaredu gwastraff = arrangements to dispose of waste



## Ymarferion:

1. Pa eiriau sy'n perthyn i'w gilydd yn y ddwy golofn?

| A | B |
|---|---|
| Cynulleidfa | Prinder |
| Ffynhonnell | Amser |
| Cyfnod | Darlun |
| Tlodi | Tarddiad |
| Delwedd | Gwahanol |
| Amrywiol | Gwrandawyr |

2. Cywirwch y ffeithiau yn y gosodiadau hyn:
i) Dyw Nia Williams ond yn siarad â phobl ifainc dosbarth canol yn ei gwaith.
ii) Mae gormod wedi ei sgrifennu am hanes merched yn barod.
iii) Roedd Nia'n dibynnu'n llwyr ar ffynonellau ysgrifenedig wrth drefnu'r cywaith.
iv) Roedd merched yn cael digon o help yn y cartref.
v) Yn y cyfnod 1900-18 roedd tai Treorci'n foethus iawn.

3. Trafodwch sut mae'r gwaith tŷ yn cael ei rannu yn eich cartref chi.


4. Beth yw ffurf luosog yr enwau a ganlyn?:

| | |
|---|---|
| rhaglen | cyfrwng |
| cynulleidfa | ffatri |
| pwt | ffynhonnell |
| mater | ysbyty |
| fferm | cartref |

# 6. AMGUEDDFA WERIN CYMRU



**Helo, fy enw i yw Ffion Fielding ac rwy'n aelod o'r Adran Addysg yn Amgueddfa Werin Cymru. Yn aml, rwy'n cyflwyno'r Amgueddfa i gynulleidfaoedd o bob oed.**




Agorodd yr Amgueddfa gyntaf ym 1948, ac ers hynny mae wedi datblygu yn un o amgueddfeydd awyr-agored pwysicaf Ewrop. Dyma atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru heddiw. Yn yr Amgueddfa gall ymwelwyr **g**ael blas ar sut roedd pobl Cymru yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser hamdden.

Saif yr Amgueddfa ar dir Castell Sain Ffagan. Yr Iarll Plymouth roddodd y tir hwn i bobl Cymru ym 1946. Bellach mae dros **dd**eugain o adeiladau gwreiddiol yma. Mae'r adeiladau hyn wedi cael eu symud o wahanol **r**annau o Gymru a'u hailgodi yn yr Amgueddfa. Mae pob adeilad yn rhodd i'r Amgueddfa. Rydym yn ceisio dethol rhai sy'n **g**ynrychiadol o adeiladau yng Nghymru.



Mae dehongli'r tai ar ar gyfer ymwelwyr yn rhan hanfodol o waith pawb yn yr Amgueddfa. Tasg bwysig yw dewis celfi (dodrefn) sydd yn addas ar gyfer y cyfnod. Mae'r celfi (dodrefn) yn gallu dod o gasgliad yr Amgueddfa, neu yn cael eu casglu'n arbennig. Mae gan yr Amgueddfa **g**annoedd ar filoedd o wrthrychau yn eu casgliad. Yr adran gadwraeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y casgliadau yma yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn deall mwy am draddodiadau a ffyrdd o fyw y Cymry, mae gan yr Amgueddfa archif sain a ffotograffau enfawr. Mae yna tua 8,500 o dapiau o gyfweliadau ar bob math o destunau, a **th**ua 200,000 o luniau.


Os hoffech sgwrs gyffredinol am yr Amgueddfa dewch draw i'r Adran Addysg.

## Geirfa:

archif (-au) b. = an archive
cadwraeth b. = conservation
cyfweliad (-au) g. = an interview
cynrychiadol ans.- = representative
cynulleidfa (-oedd) b. = an audience
diogelu = to protect, to safeguard
dodrefn/celfi ll. = furniture
gwrthrych (-au) g. = an artefact
hanfodol = essential
iarll (ieirll) g. = an earl
poblogaidd = popular
saif (lit. form > sefyll) = stands
treftadaeth b. = heritage
treulio = to spend (time)

# 6. AMGUEDDFA WERIN CYMRU

## Ymarferion:



1. **Atebwch y cwestiynau:**

i) Pryd agorodd Amgueddfa Werin Cymru?
ii) Pa mor boblogaidd yw'r Amgueddfa?
iii) Pwy oedd biau tir Castell Sain Ffagan?
iv) Ydy'r Amgueddfa'n prynu hen adeiladau?
v) Beth sy'n bwysig wrth ddewis adeiladau?
vi) Wrth ddewis celfi i'r tai, pam mae rhaid bod yn ofalus?
vii) Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu'r casgliadau?
viii) Beth arall, yn ogystal â gwrthrychau, sydd gan yr Amgueddfa i'n helpu i ddeall hanes Cymru?

2. **Ydych chi'n gallu awgrymu ffordd arall o fynegi'r geiriau/ymadroddion a danlinellwyd:**

i) <u>Saif</u> yr Amgueddfa ar dir Castell Sain Ffagan.
ii) <u>Bellach</u> mae dros ddeugain o adeiladau gwreiddiol yma.
iii) Mae'r adeiladau hyn <u>wedi cael eu symud</u> o wahanol rannau o Gymru.
iv) Rydym yn ceisio <u>dethol</u> rhai.

3. **Yn y rhagymadrodd mae 6 o dreigladau wedi eu nodi. Ydych chi'n gallu esbonio'r rheswm dros bob un?**

i). ..........................................................................
ii) ..........................................................................
iii) ..........................................................................
iv) ..........................................................................
v) ..........................................................................
vi) ..........................................................................

4. **Llenwch y bylchau:**

| UNIGOL | LLUOSOG |
|---|---|
| ........................ | cynulleidfaoedd |
| amgueddfa | ........................ |
| ........................ | ymwelwyr |
| rhan | ........................ |
| tir | ........................ |
| cyfweliad | ........................ |

# 7. TŶ AR GYFER Y DYFODOL



**Croeso i'r Tŷ ar gyfer y Dyfodol. Elin Roberts ydw i, ac rwy'n gyfrifol am ddehongli'r Tŷ.**

Dyma un o brosiectau diweddara a mwya cyffrous yr Amgueddfa. Mae'r Tŷ yn ceisio dangos sut dyn ni'n meddwl y bydd pobl yn byw erbyn 2050. Ond nid Tŷ yn llawn teclynnau a robotiaid yw'r Tŷ hwn. Yn hytrach mae'n rhoi cyfle i drafod sut bydd bywydau pobl fel ni yn cael eu heffeithio gan y newidiadau yn ein cymdeithas. Mae nifer o'r technegau adeiladu yn y Tŷ wedi eu seilio ar dechnegau traddodiadol tebyg i'r rhai a welir yn llawer o'r adeiladau eraill yn yr Amgueddfa.

Y tair prif egwyddor i'w cofio wrth edrych ar y Tŷ yw cynaliadwyedd, hyblygrwydd a hygyrchedd.




**Cynaliadwyedd -** Mae angen cysgod, gwres, goleuni, dŵr a bwyd ar bawb. Mae'r Tŷ ar gyfer y Dyfodol yn cynnig y rhain i gyd. Mae yna bwyslais arbennig ar yr effaith y gall yr elfennau hyn eu cael ar ein dyfodol ni i gyd. Felly, mae'r 'cysgod' (y Tŷ ei hun) wedi ei adeiladu â defnyddiau crai lleol, er enghraifft, y llechi ar y llawr. Mae'r gwres yn dod o bwmp tanddaearol. Mae'r goleuadau wedi'u pweru gan baneli solar ar y to. Dŵr glaw wedi ei gasglu yn y to sy'n cael ei ddefnyddio'n aml er mwyn osgoi defnyddio gormod o ddŵr wedi ei buro.

**Hyblygrwydd -** Y trawstiau derw sy'n cynnal y Tŷ. Panel yw pob mur mewnol. Mae modd addasu felly pan fydd angen. Er enghraifft, os oes angen ystafell wely arall ar gyfer babi newydd, mae modd gwneud hyn yn hawdd. Mae modd hefyd symud y grisiau ar draws yr ystafell fyw i rannu'r un ystafell fawr yn ddwy.



**Hygyrchedd -** Mae lifft ar gyfer defnyddio cadair olwyn yn rhan naturiol o'r Tŷ. Hefyd, mae'r celfi yn y gegin i gyd yn ddigon isel ar gyfer rhywun sydd mewn cadair olwyn.



# 7. TŶ AR GYFER Y DYFODOL (PARHAD)

## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| addasu | = to adapt | elfen (-nau) b. | = an element |
| ailgylchu | = to recycle | goleuni g. | = light |
| cadair olwyn b. | = a wheelchair | hyblygrwydd g. | = flexibility |
| cyfrifol am | = responsible for | hygyrchedd g. | = accessibility |
| cynaliadwyedd g. | = sustainability | llechen (llechi) b. | = a slate |
| cynhesu byd-eang | = global warming | pweru | = to power |
| dehongli | = to interpret | tanddaearol | = subterranean |
| defnyddiau crai | = materials | tanwydd ffosiliedig g. | = fossil fuels |
| effaith (effeithiau) b. | = an effect | teclyn (teclynnau) g. | = a gadget, a device |
| egwyddor (-ion) b. | = a principle | trawst (-iau) g. | = a beam (wooden) |

## Ymarferion:

**1. Rhowch UN gair am y canlynol:**


i) Newid rhywbeth i ateb eich gofynion
ii) Y gallu sydd gan rywbeth i'w gynnal ei hun
iii) Defnyddio rhywbeth eto
iv) Esbonio rhywbeth i rywun arall
v) Darnau hir o bren sy'n cynnal to'r tŷ
vi) Y priodoledd o fod o fewn cyrraedd
vii) Glo ac olew
viii) Y gallu i ymaddasu'n hawdd.

**2. Llanwch y bylchau:**

i) Mae Elin Roberts yn...............................ddehongli'r tŷ.
ii) Mae technegau adeiladu'r tŷ wedi eu.................. dechnegau traddodiadol.
iii) Y tair prif egwyddor yw................., ................ ac......................
iv) Mae'r tŷ wedi ei adeiladu.........................defnyddiau...................lleol
v) Mae'r.......................wedi ei bweru gan.................solar.
vi) Os oes angen stafell arall, mae modd.........................tŷ.

**3. Ysgrifennwch ffurfiau lluosog yr enwau hyn:**

| | |
|---|---|
| teclyn | newid |
| trawst | effaith |
| robot | adeilad |
| egwyddor | llechen |



# 8.Y LLWYBR DIARHEBION

**Ewch o adeilad i adeilad yn y drefn a nodir isod:**



**1. Wrth y fynedfa i'r prif adeilad:**
DEUPARTH GWAITH EI DDECHRAU
[Y rhan fwyaf anodd o unrhyw waith yw dechrau]

**2. Wrth y twlc mochyn**
MAE GAN FOCH BACH GLUSTIAU MAWR
[ Mae plant bach yn gwrando ar bopeth ac yn ei godi]

**3. O flaen Melin Bompren**
CYNTAF I'R FELIN GAIFF FALU
[Y cyntaf i gyrraedd sy'n cael y fantais]

**4. O flaen Nantwallter**
CASTELL PAWB EI DŶ
[Mae pobun yn falch o'i gartref]

**5. O flaen y siop fara**
MAE HANNER TORTH YN WELL NA DIM
[Mae cael rhan o rywbeth yn well na chael dim]

**6. O flaen Siop y Teiliwr**
GWELL CLWT NA THWLL
[Mae dillad wedi eu trwsio yn well na rhai â thwll ynddyn nhw]




**7. O flaen y gofgolofn**
GWELL ANGAU NA CHYWILYDD
[Mae marw'n well na chael eich cywilyddio]

**8. O flaen Siop Gwalia**
A GEIR YN RHAD A GERDD YN RHWYDD
[Dyw pethau rhad ddim yn para'n hir]

# 8.Y LLWYBR DIARHEBION (PARHAD)





**9. O flaen yr efail**
CURO'R HAEARN TRA BO'N BOETH
[Rhaid gweithredu ar yr adeg fwya manteisiol]

**10. O flaen lle tân ystafell fyw Cilewent**
CYW A FEGIR YN UFFERN, YN UFFERN Y MYN FOD
[Mae pawb ynghlwm wrth eu cynefin]

**11. O flaen Ysgol Maestir**
GWELL DYSG NA GOLUD
[Addysg yw'r cyfoeth gorau]


**12. O flaen gweithdy'r cyfrwywr**
GWEDDW CREFFT HEB EI DAWN
[Rhaid wrth ddawn i gyflawni crefft]

**13. O flaen y cloc yng nghegin Llainfadyn**
AMSER A DDENGYS
[Mae pethau'n dod yn amlwg gydag amser]

**14. Wrth edrych ar simnai Abernodwydd**
DOES DIM MWG HEB DÂN
[Mae rhyw sail i bob stori]

**15. O flaen Capel Pen-rhiw**
ANGEL PEN FFORDD A DIAWL PEN TÂN
[Person sy'n hyfryd yn gyhoeddus ond yn gas yn ei gartref]

**16. Wrth y garreg filltir**
TEG EDRYCH TUAG ADREF
[Mae'n braf troi nôl tuag adref]



# 8. Y LLWYBR DIARHEBION (PARHAD)



**Ewch yn ôl i'r adeiladau a cheisiwch gofio'r diarhebion.**
**Os nad ydych chi'n gallu cofio'r ddihareb, edrychwch ar y cliwiau isod:**


1. Deuparth - - -
2. Mae gan - - - mawr.
3. - - felin – falu
4. Castell pawb - -
5. – hanner – yn - - dim
6. Gwell – na –
7. – angau na –
8. A geir - - a gerdd - -
9. Curo'r – tra – boeth
10. Cyw - - - uffern, yn - - myn fod
11. – dysg – golud
12. – crefft – ei –
13. Amser - -
14. Does dim – heb –
15. – pen ffordd – diawl - -
16. Teg – tuag –

**2. Dyma ddeg dihareb sydd wedi eu cymysgu. Allwch chi sgrifennu'r ffurfiau cywir?**

i) Gwell dysg na thwll
ii) A geir yn rhad a ddengys
iii) Gweddw crefft heb dân
iv) Gwell clwt na chywilydd
v) Does dim mwg heb ei dawn
vi) Amser ei ddechrau
vii) Gwell angau na golud
viii) Angel pen ffordd, yn uffern y myn fod
ix) Deuparth gwaith a gerdd yn rhwydd
x) Cyw a fegir yn uffern a diawl pen tân.

**3. Beth yw'r diarhebion hyn?**

i) mawr glustiau gan bach foch mae
ii) dŷ pawb ei castell
iii) falu i'r felin cyntaf gaiff
iv) yn dim well torth hanner mae na
v) tra boeth haearn curo'r bo'n
vi) ddechrau deuparth ei gwaith



# 9.Y LLWYBR GEIRIAU

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y daflen. Mae gan bob adeilad ALLWEDDAIR (key-word), sef gair wedi ei lunio o lythrennau cyntaf y geiriau y mae'n rhaid ichi eu dysgu. Gofynnir ichi geisio cofio'r gair hwn trwy greu darlun dychmygol yn eich pen. Wedyn, ceisiwch ddysgu'r tri gair newydd cyn symud ymlaen:



1. **Capel Pen-rhiw** Allweddair: **PAB**
Dychmygwch fod y PAB yn ymweld â'r capel!
**Pechu** (to sin) **addoli** (to worship)
**bendithio** (to bless)

2. **Ffermdy Cilewent** Allweddair: **CAE**
Meddyliwch am y CAE yn ymyl y tŷ.
**Clawdd** (an embankment) **amaethyddiaeth** (agriculture)
**erw** (an acre)



3. **Ysgubor Hendre-wen** Allweddair: **BBC**
Dychmygwch fod y BBC yn darlledu oddi yma!
**Barlys** (barley) **byrnau** (bales) **ceirch** (oats)

4.**Ysgol Maestir** Allweddair: **DAP**
Dychmygwch y prifathro'n cosbi plentyn â dap (plimsole/trainer)
**Disgybl** (a pupil) **arholi** (to examine) **profi** (to test)

5. **Gweithdy'r Cyfrwywr** Allweddair: **CELL**
Mae'r gweithdy 'ma'n fach fel cell.
**Cyfrwy** (a saddle) **edafedd** (thread) **llunio** (to form, to design)

6. **Y Tollty** Allweddair: **POS** (a puzzle)
Dychmygwch fod adeiladu'r tolldy wedi bod yn dipyn o bos i'r crefftwyr!
**pensaer** (an architect) **offer** (tools) **saer maen** (a stone mason)

7. **Y Twlc Mochyn** Allweddair: **CCC**
Dychmygwch fod Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn noddi'r twlc!
**cymesur** (symmetrical) **cymen** (elegant) **cywrain** (intricate)

8. **Ffermdy Kennixton** Allwedd: **TÂN**
Dychmygwch fod y tŷ ar dân!
**trawstiau** (beams) **aelwyd** (a hearth) **nenfwd** (a ceiling)

NAWR, DILYNWCH Y LLWYBR UNWAITH ETO.
CEISIWCH GOFIO'R ALLWEDDAIR AC WEDYN
Y TRI GAIR CYSYLLTIEDIG. POB LWC!

